NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Lenalidomide gyda dexamethasone ar gyfer myeloma lluosog sydd heb ei drin yn flaenorol

26 Mehefin 2019

Mae lenalidomide (Revlimid) gyda dexamethasone ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer oedolion sydd â myeloma lluosog sydd heb ei drin yn flaenorol os:

- nad ydynt yn gymwys i gael trawsblaniad bôn-gelloedd
- nad ydynt yn gallu cael thalidomide.

Os nad ydych yn gymwys i gael lenalidomide, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### Gwybodaeth a chymorth

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:


© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- Myeloma UK, 0800 980 3332
- Bloodwise,  0808 2080 888
- Cancer Research UK Patient Information, 0808 800 4040
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 000

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN 978-1-4731-3443-0



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.